# tafod elái

MAI 2008

Rhif 227

Pris 60c


## Trigolion Pontypridd yn Croesawu Pencampwyr y Byd




Roedd yn bleser i Dafydd Idris a Beryl o'r Comin, Pontypridd groesawu Ray Chen, feiolinydd ifanc o Awstralia, i'w cartref yn ystod cystadleuaeth Yehudin Menuhin yng Nghaerdydd. Mae Ray o dras Tsieineaidd ond yn ddinesydd o Awstralia. Daeth Ray i'r brig yn y gystadleuaeth gyda pherfformiad anhygoel o Goncerto E leiaf Mendelssohn yn Neuadd Dewi Sant ar Ebrill 19eg.

Hefyd roedd merch ifanc o wlad Pwyl yn aros gyda Tom a Ceinwen Jones. Ar ôl y gystadleuaeth rhoddodd Marta Pawlowska dau gyngerdd, un yn Ysgol Cwm Rhymni ar llall gyda cherddorfa sirol plant RhCT yn Ysgol Coed y Lan ar fore Sadwrn. Bu niferoedd eraill o'r cystadleuwyr hefyd yn ymweld ag ysgolion yr ardal.



**Marta Pawlowska yn Ysgol Uwchradd Pontypridd**



**Tom Jones, Marta Pawlowska, Ray Chen a Dafydd Idris**

## Ymwelwyr o'r gorffennol




Ddydd Iau, Mawrth 7 am 3.30 p.m. daeth grŵp o bobl bwysig dros ben i ymweld ag adeiladau newydd Ysgol Gyfun Rhydfelen. Cyn-athrawon Rhydfelen oedden nhw, bob un wedi mynegi diddordeb mewn gweld yr adeilad newydd.

Daeth nifer o hoelion wyth ynghyd, fel mae'r llun yn dangos. Tybed a ydych chi'n eu hadnabod nhw? Yn eu plith mae Mrs Morfudd Stone, Mr Huw Thomas, Mr John Davies a'i wraig Audrey, Mrs Ursula Ashton, Mr Gwyn Pritchard-Jones a Mr Gwyndaf Jones. Cyrhaeddodd Mr Gareth Reynolds ychydig yn rhy hwyr i fod yn y llun!

Yn y lle cyntaf syniad Mrs Stone oedd hwn, gan estyn cyfle i athrawon oedd wedi ymddeol ac yn byw yn yr ardal i flasu'n byd newydd ni. Cawson nhw daith o amgylch yr ystafelloedd dysgu. Roedden nhw'n methu credu safon yr adnoddau a'r cyfleusterau sydd gyda ni, yn enwedig o'u cymharu â'r hen adeilad, sydd erbyn hyn, gyda llaw, wedi diflannu'n llwyr.

Yn ystod y daith cawson ni baned, cyfle i ddala lan a hel atgofion, yn ogystal â phori trwy lawer o hen luniau a phapurau gwahanol. Mae'r llun yn dangos ble mae eu teyrngarwch nhw o hyd!

# tafod elái

***GOLYGYDD***
***Penri Williams***
***029 20890040***

***HYSBYSEBION***
***David Knight 029 20891353***
***DOSBARTHU***
***John James 01443 205196***
***TRYSORYDD***
***Elgan Lloyd 029 20842115***
***CYHOEDDUSRWYDD***
***Colin Williams***
***029 20890979***

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 1 Mehefin 2008
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
22 Mai 2008

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafelai.net**
*e-bost*
**pentyrch@tafelai.net**

*Argraffwyr:*
**Gwasg**
**Morgannwg**
**Castell Nedd SA10 7DR**
**Ffôn: 01792 815152**



**Gwasanaeth addurno,**
**peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol**
**ar gyfer eich cartref**
**neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw**
**waith addurno**






## CLWB Y DWRLYN

**Aled a Jim Jones**
**"Llwybrau Nest"**
Neuadd yr Eglwys Creigiau
8yh Nos Wener, 9 Mai
Manylion: 029 20890493

**Rasus Casgwent**
Nos Wener
13 Mehefin
Gadael 5.30pm
**Ffoniwch 029 20891753**
**i drefnu lle ar y bws**

## MERCHED Y WAWR
**Cangen y Garth**

**Carys Whelan yn ein tywys o gwmpas Gardd Berlysiau y Bontfaen**
Dydd Mercher 6.30yh
**14 Mai 2008**
Swper i ddilyn
Am ragor o fanylion, ffoniwch:
Rhiannon Price, Ysgrifennydd
01443 223282

## *CYMDEITHAS GYMRAEG LLANTRISANT*

***Helfa Drysor***
*4.00yp*
*Dydd Sadwrn, 10 Mai*

***Taith i Abaty Cwm Hir***
*Dydd Sadwrn, Mehefin 14*

Manylion: 01443 218077


Cydnabyddir cefnogaeth
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru / Sponsored by Welsh Assembly Government
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk


# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**GENEDIGAETH**
Llongyfarchiadau gwresog i Angharad a Marc Evans ar enedigaeth Marged Haf. Llongyfarchiadau hefyd i Gill a Wyn Rees ar ddod yn fam-gu a thad-cu am y tro cyntaf. Pob dymuniad da i'r teulu bach yn Sain Nicolas.

**MERCHED Y WAWR**
Aled Pickard oedd y siaradwr yng nghyfarfod mis Ebrill. Cawsom hanes ei yrfa yn Llundain cyn iddo fynd ar daith fel gwirfoddolwr i weithio mewn ysgol i blant bach yn Capetown yn Ne Affrica. Fe'i trawyd gan y gwrthgyferbyniad amlwg a fodolai yn y ddinas hardd honno rhwng y cyfoethog a'r tlawd. Penderfynodd mai ym myd gwaith elusennol yr hoffai weithio a chafodd swydd gyda Chymorth Cristnogol. Yn fuan wedyn cafodd ei anfon i Uganda i edrych ar un o brosiectau'r mudiad yno i geisio lliniaru effeithiau tlodi ac AIDS. Dymunwn yn dda iddo yn ei waith pwysig. (Gwelwn yn Y Tyst mai ar gyfer De Affrica y bydd apêl eglwysi'r Annibynwyr eleni.)

**EISTEDDFOD YR URDD**
Dymunwn yn dda i blant y pentref a fydd yn cystadlu yn y Genedlaethol i fyny yng Nglanwydden ger Llandudno. Pob lwc a mwynhewch!

## Cinio a Dawns

Yn y Marquee
ar Barc y Dwrlyn,
Pentyrch

**Nos Wener, Mai 16 2008**
**7.00 o'r gloch ar gyfer 7.45**

Cinio tri chwrs
Adloniant yn cynnwys
Dave Escott

**£25 y pen (Byrddau i 10)**
Elw at Eistedfod
Genedlaethol Cymru
Caerdydd 2008

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Llongyfarchiadau**
Estynnwn ein llongyfarchiadau cynhesaf i Enyd Arfon Jones ar ddathlu ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed yn ystod y mis. Daeth y teulu a llu o ffrindiau o ardal Aberdâr i gyd-ddathlu yn Nantcelyn.

**Swydd Newydd**
Llongyfarchiadau gwresog i Geraint Rees, Penywaun ar ei benodiad i swydd newydd yn Brif Athro Ymgynghorol Uwchradd i Awdurdod Addysg Caerdydd. Bu Geraint yn brifathro llwyddiannus Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr ers sefydlu'r ysgol. Pob hwyl iti yn dy swydd newydd.

**Damwain**
Cafodd Ioan, mab hynaf Rob a Bethan Emanuel, Tŷ Gwyn, Heol y Parc ddamwain fach tra ar ei wyliau tramor a bu'n rhaid iddo fynd i'r ysbyty am driniaeth. Mae'n braf ei weld yn holliach erbyn hyn.

## Y Tabernacl

**Derbyn Aelodau Newydd**
Yn oedfa'r Cymun, ddechrau Ebrill cawsom y pleser o dderbyn dwy aelod newydd i'r eglwys. Daeth Anwen Smyth a'i haelodaeth atom o Eglwys y Trinity, Abertawe a Gwerfyl Morse o Salem, Canton. Mae'r ddwy wedi bod yn ffyddlon yn yr oedfaon ers tro ac yn aelodau gwerthfawr o dîm athrawon yr Ysgol Sul.

**Adferiad Iechyd Buan**
Dymunwn yn dda i Roy Davies, Meisgyn a fu'n treulio peth amser yn yr ysbyty yn ystod y mis.

**Pen-blwydd arbennig**
llongyfarchiadau i un o'n haelodau, Bryn Davies, Radur, ar ddathlu ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed yn ystod y mis.

**Tacluso'r capel**
Mae criw o weithwyr brwd wedi bod yn cyfarfod yn gyson ers peth amser ar foreau Sadwrn i beintio a thacluso'r capel. Diolch o galon iddynt am eu brwdfrydedd a'u llafur.

**Merched y Tabernacl**
Roedd y merched â'u bryd ar fynd i ymweld â'r Amgueddfa yn Sain Ffagan ar ddydd Iau, Ebrill 3yd. Ond Och a Gwae! Fe benderfynodd staff yr Amgueddfa fynd ar streic ar yr union ddiwrnod, a hynny am y tro cyntaf erioed i gefnogi eu hachos am godiad cyflog tecach.

Nid rhai i golli cyfle am baned a chlonc yw criw'r merched, felly lawr â ni i Dŷ Coffi Lisa, "Just Because" ym Mhontyclun i fwynhau paned ac "i roi'r byd yn ei le!"

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ddydd Iau, Mai 1af am 11 o'r gloch ym Mharc Cefn Onn.

**Trefn yr Oedfaon**
Mai 4 Gwasanaeth Cymun o dan ofal y Gweinidog
Mai 11 Y Parchedig Aled Edwards
Mai 18 Oedfa Deuluol Cymorth Cristnogol
Mai 25 Allan James

# GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

**DOSBARTH GWNIO A CHREFFTAU**
Bu'r merched wrthi'n brysur ers yr haf yn gweu ac yn brodio anrhegion i'w gwerthu er budd Tŷ Hafan adeg y Nadolig. Buont yn gweu hosanau coch a'u llenwi â losin, hefyd blychau o waith cynfas blastig a'u llenwi â losin. Gwnaethpwyd addurniadau Nadolig hefyd wedi eu brodio o'r cynfas plastig. Diolch o galon i'r cyfeillion oedd mor barod i roi tuniau o losin at yr achos ac o ganlyniad cyflwynwyd £1702-23 i Dŷ Hafan.

Cyn y Pasg, ac roedd y Pasg yn gynnar eleni, bu'r merched wrthi yn gweu cywion i Ysbyty Felindre a rhoi wy Pasg yn eu boliau. Cyflwynwyd £1,115 i'r Ysbyty.

Mae'r Merched am ddiolch o galon i bawb a fu mor barod i'w cefnogi wrth brynu ein cynnyrch. Diolch yn Fawr i Bawb.

**MRS MEGAN JENKINS**
Roedd pawb yn flin i glywed am farwolaeth Mrs Megan Jenkins, Ash Street gynt, a hithau o fewn mis i gyrraedd ei phen-blwydd yn 93oed. Ganwyd hi yn y Stryd Fawr gyferbyn â Byddin yr Iachawdwriaeth ond daeth i fyw i Garden Village pan briododd â'i gŵr, y diweddar Mr Will Jenkins. Bu 'n gwneud amryw o weithgareddau yn y gymuned gan gynnwys helpu gyda'r 'Pryd ar Glud' Roedd yn hoff iawn o ganu a chanai gyda'r côr ac roedd yn mynd i gapel Moreia. Yn anffodus oherwydd afiechyd gorfu iddi adael ei chartref a mynd i fyw i 'Cartref Gofal y Rhondda' lle y bu am sawl blwyddyn. Cynhaliwyd yr angladd ym Moreia dan ofal Mr W.N. Phillips ac yna i Amlosgfa Llangrallo. Claddwyd y llwch ym mynwent Glynogwr gyda'i gwr. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei theulu.

**Y GANOLFAN HAMDDEN GYMUNEDOL, HENDREFORGAN**
Mae llawer o weithgareddau yn mynd ymlaen yn y ganolfan ac mae llawer o rai eraill ar y gweill ar gyfer yr Hydref.

Cynhaliwyd Cynllun Chwarae dros Wyliau'r Pasg a bydd un arall dros Ŵyl Banc y Gwanwyn ac un dros Wyliau'r Haf i blant rhwng 5 ac 14 oed. Mae'r Clwb Ieuenctid i rai rhwng 11 a 25 yn cyfarfod Nos Lun, Nos Fercher a Nos Iau o 7 tan 9 o'r gloch ac mae gweithgareddau i blant rhwng 5 ac 11eg bob Nos Fawrth o 3.30 - 5.30 a Noson Sinema Nos Wener olaf y mis.

Mae'r Gampfa ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener o 9 tan 9 yr hwyr Mae'r Caffi Cymunedol ar agor o 9 y bore tan 9 yr hwyr o ddydd Llun tan ddydd Gwener.

Bwriedir cynnal amryw o gyrsiau, yn eu plith cwrs Coginio i blant a'u Rhieni er mwyn annog y rhieni i baratoi bwyd iachus i'w plant

Cynhelir Diwrnod Arbennig ar Fehefin 7fed yn y Ganolfan a chae Hendreforgan pryd y bydd stondinau o bob math a Marchnad Ffermwyr.

# STIWARDIO

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn dod i Gaerdydd eleni ac angen gwirfoddolwyr lleol i gynorthwyo gyda Stiwardio yn ystod yr wythnos.

Gallwch gynnig gwirfoddoli i wneud un neu fwy o sesiynau yn ystod yr wythnos rhwng 1af - 9fed Awst. Bydd sesiwn yn golygu shifft yn ystod un o'r cyfnodau isod:
8.30am - 13.00pm 12.30pm - 18.00pm
17.30pm - 22.00pm

Cynigir tocyn mynediad i Faes yr Eisteddfod (gwerth £12) i bawb fydd yn gwirfoddoli fel stiward a hefyd pryd o fwyd i bob stiward sy'n gwasanaethu am ddwy sesiwn yn olynol.

Am ffurflen cofrestru cysylltwch a Siwan yn Swyddfa'r Eisteddfod siwan@eisteddfod.org.uk neu 02920 763777



# Ysgol Garth Olwg

**Taith i Techniqnest**
Aeth plant Blwyddyn 2 a rhai o blant Blwyddyn 1 ar drip i 'Techniquest' i weld sioe 'Mad musical instruments'. Cafodd y plant hwyl yn arbrofi gyda'r gwahanol weithgareddau ac fe ddysgon nhw sut i chwarae'r bin sbwriel, cambren cot a hyd yn oed tŷ bach.

**Trip Dosbarth Mr Cooper a Miss MacDonald i Ganolfan Arddio Pughs**
Mwynheuodd dosbarthiadau Mr Cooper a Miss MacDonald drip i Ganolfan Arddio Pughs. Cawsant daith o amgylch y Ganolfan ac aethant i'r acwariwm hefyd! Rhoddwyd sudd oren a bisgïen i bawb am fod yn blant mor dda!

**Llyfrgell y campws**
Ymwelodd dosbarth Mrs Evans a Mr Davies â llyfrgell y campws i ddewis llyfrau ar gyfer ein thema newydd sef 'Pridd o dan ein Traed'. Roedd cyfle iddynt ddod o hyd i lyfrau ffeithiol a llyfrau ffuglen. Diolch yn fawr i staff y llyfrgell. Byddwn yn ymweld â chi yn gyson yn ystod y flwyddyn.

**Cystadleuaeth Rygbi'r Urdd.**
Aeth y tîm rygbi i'r Ddraenen Wen i gymryd rhan yng nghystadleuaeth yr Urdd. Chwaraeon nhw dair gêm i gyd, ond er nad oeddynt yn llwyddiannus chwaraeon nhw'n dda ac fe sgoriodd Trystan Gruffydd cais a throsiad a Rhydian Prosser cais.

**Pêl-rwyd**
Fe aeth tîm pêl-rwyd yr ysgol i gystadlu mewn twrnament yng Nghanolfan Chwaraeon Rhondda Fach. Chwaraeodd y tîm bedair gêm - collon nhw dair gêm ac enillon nhw un. Gwelwyd perfformiad gwych gan Amy Outing.



**Dirgelion Techniquest**



**Canolfan arddio Pughs**




**Heddwas yn dod i siarad â Blwyddyn 1 a 2**

# Clwb Cinio Pontypridd

Dyma lun o rai o ddysgwyr Garth Owlg yn mwynhau cinio blasus a chlonc yng Nghlwb Cinio Pontypridd fis diwethaf. Mae'r clwb yn cwrdd rhwng 1 – 2 ar y dydd Mawrth cyntaf ym mhob mis ym mwyty'r Lemontree yng ngholeg Morgannwg, Rhydfelen, ac mae croeso cynnes i Gymry Cymraeg a dysgwyr ymuno – gorau po fwyaf! Bydd y clwb yn cyfarfod nesa ddydd Mawrth 6 Mai ac wedyn dydd Mawrth 4 Mehefin - os am fwyd da ac amser difyr, dewch i ymuno â ni!



# YSGOL GYNRADD GYMRAEG EVAN JAMES

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i ddwy aelod o'r staff Rhian Ratcliffe a Kate Spencer ar enedigaeth dwy ferch fach. Dymuniadau gorau iddynt.

**Eisteddfod Gylch a Sir Yr Urdd**
Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu. Dyma'r canlyniadau yn yr Eisteddfod Sir :
2il, Unawd dan 8 - Siân Jones
3ydd, Adrodd dan 12 – Olive Thomas
3ydd, Parti Deulais dan 12
2il, Unawd dan 12 – Arwel Brown,
1af, Unawd Cerdd Dant dan 12, Arwel Brown.
Dymunwn yn dda i Arwel yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

**Dosbarthiadau 1 a 2**
Mae plant dosbarthiadau 1 a 2 wedi bod yn plannu bylbiau tiwlip ac yn arsylwi arnynt yn tyfu y tu allan. Hefyd y tymor yma mae'r plant wedi croesawu nifer o anifeiliaid anwes i'r uned ac maen nhw'n edrych ymlaen at gael tanc pysgod yn y dosbarth.

**Dosbarthiadau 3 a 4**
Mae plant dosbarthiadau 3 a 4 wedi plannu a thyfu hadau yn y dosbarth a byddan nhw'n eu trawsblannu yng ngardd yr ysgol. Bydd y plant yn edrych ymlaen at flasu ffrwyth eu gwaith sef letys a betys.

**Dosbarthiadau 5 a 6**
Daeth crwban Dylan i ymweld â phlant y ddau ddosbarth.

**Dosbarthiadau 7 ac 8**
Daeth Mr Brian Davies i'r dosbarthiadau i son am ffyrdd o deithio yn ein hardal leol ers yr 1900au. Cafodd y plant ddyfalu dyddiadau'r gwahanol gerbydau a'u rhoi mewn trefn gronolegol.

**Teithiau**
Aeth plant dosbarthiadau 9 i 13 ar ymweliad ag Amgueddfa Pontypridd i weithdy'r gofod a bu plant dosbarth 9 ar drip i bentref Celtaidd Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Aeth dosbarthiadau 12 ac 13 ar daith i 'Techniquest' ym Mae Caerdydd a bu dosbarthiadau 14 ac 15 yng Ngŵyl Ffilmiau 'Zoom' yn y Miwni ym Mhontypridd yn cymryd rhan mewn gweithdy effeithiau arbennig.
Pan ddaethon nhw yn ôl i'r ysgol 'roedden nhw'n edrych yn frawychus oherwydd eu bod nhw'n dal i wisgo colur!

**Ymwelwyr**
Daeth P.C. Jones a P.C. James (un o gyn-ddisgyblion yr ysgol) i weithio gyda blwyddyn 6 ar 'Gynllun Saff' sy'n addysgu plant am beryglon alcohol a chyffuriau; daeth y Parch. Denzil John i siarad am y Cymun a'r Pasg; a daeth Mrs. Iris Williams o elusen 'Dr Barnardo' i son am waith y mudiad a sut maen nhw'n helpu pobl ifainc yn y gymuned.

**Côr**
Cafodd y côr wahoddiad i ganu yn Adeilad Y Cynulliad ar Fawrth 27ain mewn cyngerdd i fyfyrwyr tramor sy'n astudio yng Nghaerdydd. Cafwyd croeso cynnes gan Brif Weinidog Cymru Rhodri Morgan a'r Gweinidog Addysg Jane Hutt. 'Roedd y myfyrwyr wedi dotio ar y plant ac yn frwdfrydig iawn wrth dynnu lluniau gyda'r disgyblion yn eu gwisgoedd Cymreig.

**Cwis Llyfrau**
Diolch yn fawr i'r plant wnaeth ymdrechu'n galed yn y cwis :
Jac, Iwan, Morgaine a Twm; a Dafydd, Brython, Arwel ac Ethan.

**Chwaraeon**
Aeth tîm rygbi'r ysgol i gystadleuaeth rygbi yn Y Dyfnant yn ystod gwyliau'r Pasg a gwnaeth y bechgyn yn wych i gael dwy gêm gyfartal a cholli un gêm. Diolch i Mr Tomos.
Yn nhwrnament clwb pêl-droed Caerdydd ar Ebrill 21ain enillodd tim y bechgyn ddwy gêm, cael un gêm gyfartal a cholli un gêm ac enillodd tim y merched bob un gêm a byddan nhw yn y rowndiau terfynol ar Fai'r 15fed. Da iawn ferched!

## Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant



**Tîm Cwis Llyfrau Blwyddyn 3 a 4**



**Tîm Cwis Llyfrau Blwyddyn 6**

**Cwis Llyfrau (Cymraeg)**
Llongyfarchiadau i dîm cwis llyfrau Blwyddyn 3 a 4 yr ysgol am lwyddo i gyrraedd y rownd derfynol a gynhelir yn Aberystwyth ym mis Mehefin. Aelodau'r tîm yw Caitlin Jones, Alys John, Carys Pritchard, Sophie Vaughan, Cian Wyllis, Ioan Wyllis ac Alun Lawrence.

**Cwis Llyfrau (Saesneg)**
Llongyfarchiadau hefyd i dîm cwis llyfrau Blwyddyn 6. Da iawn i Bethan Donnelly, Rhiannon Williams, Amelia Murphy, Kasey Evans, Dafydd Tudor a Matthew Civil am actio drama ('Elephant Luck') ac am drafod 'Carrie's War'.

**Canlyniadau Eisteddfod Sir yr Urdd**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r cystadleuwyr sydd yn cystadlu yng Nghonwy dros y Sulgwyn :- Jamie Barrington-Williams (Adrodd Dan 8), Parti Deulais, Côr yr Ysgol, Parti Unsain, Ensembl Lleisiol, Llew Davies (Unawd Pres) a'r Parti Dawnsio Gwerin.


**Dathlu**
Llongyfarchiadau mawr i Miss Rhian Griffiths, un o nyrsus Meithrin yr ysgol wrth iddi ddathlu ei phen-blwydd yn 21ain oed - gwneud i'r gweddill ohonom deimlo'n hen!

**Crucial Crew (22.04.08)**
Aeth Blwyddyn 6 o dan ofal eu hathro Mr O'Neil i gwrdd ag aeolodau o'r Frigad Dân a'r Heddlu. Fe fuon nhw'n dysgu am beryglon bywyd megis alcohol, cyffuriau, diogelwch y ffordd a sut i ddianc yn ddiogel rhag tân.

**Elusen y Tymor**
Cynhelir gweithgareddau noddedig amrywiol i godi arian i'r NSPCC.

**Gweithgareddau'r GRA**
09/05/08 Ocsiwn
08/06/08 Râs Hwyaid Blynyddol (Ynysddu)

# NERTH BÔN BRAICH: AWDURES LEOL YN TORCHI LLEWYS!




Mae awdures o fro Tafod Elái yn rhan o brosiect cyffrous sy'n torri tir newydd yn hanes y nofel Gymraeg diweddar.

Nofel gywaith yw **Nerth Bôn Braich**, ffrwyth cydweithio rhwng saith o awduresau yn cynnwys Eurgain Haf o Benisarwaun yng Ngwynedd yn wreiddiol ond sydd erbyn hyn wedi ymgartrefu ym Mhontypridd.

Yr awduresau eraill fu'n torchi eu llewys creadigol yw Annes Glynn, Sian Eirian Rees Davies, Gwen Lasarus, Caron Edwards a Rhiannon Thomas. Breuddwyd yr awdures o Dregarth ger Bethesda, Janice Jones, yw **Nerth Bôn Braich**, nofel yn dilyn hynt a helynt criw o ferched sy'n cymryd rhan mewn cystadleuaeth i ddarganfod pwy fydd Merch Gryfaf Cymru.

Meddai Janice: "Roeddwn i wedi darllen dwy nofel gywaith gan awduron o'r Iwerddon, ac wedi fy nenu at y syniad. A byddai'r plant acw'n mwynhau gwylio rhaglenni dynion a merched cryfion ar y teledu pan oedden nhw'n iau. Dyma ddechrau dyfalu beth fyddai'n ysgogi merch i ymgymryd â disgyblaeth mor lem – yn enwedig gan nad yw f'ymdrechion i fy hun i gadw'n heini byth yn mynd fawr pellach nag ymlafnio i agor paced o fisgedi siocled! – a daeth y ddau beth at ei gilydd.

"Mi wnes i gysylltu â nifer o awduresau a ffurfiwyd criw o saith. Fe gawsom sêl bendith Robin Llywelyn i osod y stori ym mhentref Portmeirion a buom yn ddigon ffodus i gael Geoff Capes, pencampwr cystadleuaeth Dyn Cryfa'r Byd, i'n cynghori ar faterion deiet ac ymarfer."

Mwynhaodd Eurgain, sydd hefyd wedi cyhoeddi dwy nofel i blant sef *Fferm Ffion* a *Stablau Seren* gyda Gwasg y Dref Wen, y broses greadigol o'r dechrau i'r diwedd.

"Mae'r broses o ysgrifennu yn gallu bod yn unig iawn, ond nid felly hefo'r cywaith yma. Fe gawsom ni sawl trip a chinio ym Mhortmeirion, i gyd yn enw ymchwil wrth gwrs, a hwyl garw wrth fynd ati i drafod ein cymeriadau, eu bwriad dros gystadlu, a'u tynged ar ddiwedd y dydd. Roedd y cyfan yn broses gymdeithasol a phleserus iawn.

Meinir, Tania, Bethan, Calennig, Ceri, Ses a Buddug... Tra bo pobl eraill yn dod i Bortmeirion i ymlacio ddechrau Mai, mae'r rhain yno i weithio a chanolbwyntio ar un peth yn unig, sef cyrraedd y brig - a hynny mewn steil. Beth sy'n eu hysgogi i weithio mor galed? A pha sgandals sy'n ffrwtian dan yr wyneb ym myd cystadlaethau merched cryfion? Pwy sy'n creu clecs, pwy sy'n y clic, ac a fydd unrhyw ieir clwc?...

Mae'r holl atebion i'w cael rhwng cloriau'r nofel gywaith arloesol yma. Saith awdures. Un nod. Stori ddifyr.

**Nerth Bôn Braich**, Gwasg y Bwthyn, £7.95

## PONTYPRIDD

*Gohebydd Lleol:*
*Jayne Rees*

**Llongyfarchiadau.**
Mae rhai o drigolion ifanc yr ardal wedi bod yn llwyddiannus yn eu harholiadau piano yn ddiweddar. Derbyniodd Huw Blainey, Graigwen glod yn arholiad theori gradd 5. Hefyd Rhodri Morris Stiff, Maesycoed yn llwyddo yng Ngradd 2 a'i chwaer, Eleri yng Ngradd 1. Daliwch ati!

**Gwasanaeth yn diflannu**
Trist yw nodi bod Swyddfa Bost, Mayfield Road, Graigwen wedi cau ers mis. Mae'r perchnogion yn rhedeg busnes "siop fach" yno bellach.

**Ffarwel**
Mae'r teulu Lewis, Maesycoed wedi ymgartrefu yn y Gorllewin ers y Pasg. Mae Sian, Rich a'u merched Myfanwy a Betsan wedi symud i ardal enedigol Siân sef Drefach, ger Llanelli. Pob hwyl i Siân yn ei swydd newydd a dymuniadau gorau i chi fel teulu.



**Beth yw barn y darllenwyr am adeilad diweddara Pontypridd? Mae'r maes parcio aml lawr sy'n cynnwys swyddfeydd ar gornel St.Catherine ar fin ei gwblhau.**

**Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd**
**Sain, Cerdd a Sgandal**
**Noson gerddorol yng nghwmni**
**Joy ac Alwyn Humphreys**
**pan ddadlenir cyfrinachau rhyfeddol am gyfansoddwyr mawr y byd, ynghyd â pherfformiadau o'u gweithiau ar y piano**
yn
Y Gate, Stryd Keppock, Y Rhath
**8pm, Nos Wener, 6 Mehefin, 2008**
**Tocynnau £6 (Oedolion yn Unig)**
**Cyswllt - Rhun – 029 20755118**

JobTrac Cymru

Canolfan Datblygu Busnes
Ystad Diwydiannol Trefforest
Pontypridd
CF37 5UR


T: 01443 843800
F: 01443 205735
E: post@jobtraccymru.co.uk
W: www.jobtraccymru.co.uk

Ydych chi'n

- CHWILIO AM SWYDD?
- CHWILIO AM WEITHWYR SY'N SIARAD CYMRAEG?
- CHWILIO AM YMGYNGHORWYR ADNODDAU DYNOL?

Adnoddau Dynol a Recriwtio Cymraeg

# Trafaelu ar y Tren Glas gan Sharon Morgan




Bydd Rhosys Cochion, y cwmni a ddaeth a Shinani'n Siarad, Ede Hud a Holl Liwie'r Enfys atoch, yn teithio'i sioe newydd sbon i Theatr Canolfan Gartholwg ar Fai 16eg.

Mae Trafaelu ar y Trên Glas yn bortread o gyfnod tymhestlog canol oed pan fydd rhaid i fenyw wynebu herio'i chorff a'i henaid tra'n ceisio ymrafael â dirgelion bywyd a marwolaeth. Sut ma' torri drwy'r haenau o gelwydd a chyfrinachedd er mwyn darganfod llwybrau newydd? Sut ma' osgoi suddo o dan y don a diflannu o olwg y byd? Sut ma' dod i delerau â'i hangerdd goruwchnaturiol ac yn bwysicaf oll, sut ma' osgoi troi'n llofrudd!!

Bydd y sioe'n cael ei berfformio gan awdur y darn, Sharon Morgan, wyneb cyfarwydd ar y llwyfan a'r teledu ers y saithdegau. Mae ei gwaith ar y sgrîn yn cynnwys rhannau blaenllaw yn Pobl y Cwm, Gadael Lenin, Annest a Darn o Dir. Fe enillodd Wobr Bafta Cymru am ei rhan yn Tair Chwaer ac yn fwy diweddar mae wedi ymddangos yn Doctors, Belonging, Midsommer Murders a Torchwood. Fe fydd Sharon yn ymddangos nôl ar S4C eleni yn chwarae'r brif rhan yn y ddrama newydd Martha Jac a Sianco.

Ond theatr yw ei chariad cyntaf a mae ei gwaith gyda Rhosys Cochion ar lwyfannau Cymru o bwys mawr iddi, medd Sharon,

"Mae modd treiddio'n ddyfnach at wraidd pethe rhywsut drwy lwyfannu darn o theatr. Darlun gonest a di-flewyn-ar-dafod o dyfu'n hyn yw Trafaelu ar y Trên Glas, cipolwg ar fywyd menyw yng Nghymru ar ddechrau'r ganrif newydd, sy'n cael ei gyfleu drwy ddrama a'r theatr, cyfrwng sy'n sylweddol ond sydd hefyd yn agos atoch chi …"

Bydd y Trên Glas yn galw yn Theatr Canolfan Gartholwg, Pentre'r Eglwys ar Nos Wener Mai 16eg @ 8yh (Swyddfa docynnau: 01443 219589)

# CREIGIAU

*Gohebydd Lleol:*
*Nia Williams*

**Llongyfarchiadau mawr ...**
... i Pat Sedgebeer ar ei llwyddiant yn ennill cymhwyster hyfforddi 'bowls' i blant a dechreuwyr. Gwych Pat! Fydd rhestr faith yn aros am wersi gyda hyn bid siwr!

**Ann Fisher, Awdures**
Llongyfarchiadau i Ann, sydd newydd gyhoeddi ei llyfr cyntaf i blant. Stori Saesneg yw hi ond â chefndir Cymreig a'i theitl 'Pabi beats the Burglars'. Y gyntaf mewn cyfres, yn ôl gobeithion Ann. Teitl y gyfres yw 'Adventures in the Land of Welsh Magic'. Athrawes oedd Ann cyn ymddeol ac yn ei geiriau ei hun – 'falle mod i wedi ymddeol, ond 'dw i ddim yn segur!'. Mae'r llyfr ar werth mewn siopau llyfrau lleol – neu gellwch ymweld â gwefan Ann sef www.welshwizardpublishing.com. Pob lwc gyda'r gwerthiant – falle bod 'na le i fersiwn Gymraeg yn y dyfodol?

**Cydymdeimlwn â ...**
... Scott a Lynfa a'r teulu bach. Bu farw tad Scott, Jim Barnett yn ddiweddar. Brodor o Benarth ydoedd ac nid oedd wedi mwynhau yr iechyd gorau ers blynyddoedd lawer. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Thornhill.

**Dymuniadau gorau ...**
... i holl blant a phobl ifainc y pentre sy' ar fin sefyll eu harholiadau TGAU, UG a Lefel 'A'. Daw'r haf - a bydd y cyfan oll y tu cefn i chi – a chaiff yr holl waith caled ei droi'n ganlyniadau gwych!

**Cartref gofalus ar gael ...**
... i delyn fechan efo pedalau. Merch fach gerddorol iawn, dair ar ddeg oed, sy'n dwlu ar ei gwersi telyn yn dyheu am gael benthyg/am logi telyn am gyfnod.

Cysyllter â Nia ar 02920 890979.

02920 611222
www.thai-lounge.co.uk

LOLFA THAI

**CROESO MAWR I DŶ BWYTA THAI NEWYDD GOGLEDD CAERDYDD**

DEWCH I FLASU BWYD THAI TRADODIADOL MEWN AWYRGYLCH MODERN A CHYFORDDUS

73B STRYD MERTHYR , EGLWYS NEWYDD, CAERDYDD
(UWCHBEN BWYTY PIZZERIA VILLAGIO)

**AMSERAU AGOR** (* archeb olaf)
SWPER : LLUN - SADWRN 6.30y.h - 10.45y.h *
CINIO :
MAWRTH - SADWRN 12.00y.p - 2.00 y.p (£9.95 AM 2 GWRS)

**FFONIWCH 02920 611222**
**NEU EWCH I'R WEFAN www.thai-lounge.co.uk**

# WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL 2008
# MAI 11eg – 17eg

‘Galluogi pobl’ – dyna thema Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, ac mae’r hyn sy’n digwydd mewn cymunedau tlawd ym Mangladesh drwy waith partneriaid Cymorth Cristnogol yn dangos yn glir y newid all gymryd lle pan fod pobl gyffredin yn cael eu galluogi.

Mae cael dŵr glân yn broblem enfawr ar draws Bangladesh, gyda phrinder dŵr glân a chyfleus, ffynonellau dŵr tanddaearol wedi eu llygru gan arsenig a chodiad yn lefelau’r môr, yn rhannol oherwydd newid hinsawdd, yn boddi cyflenwadau dŵr ffres gan wneud y dŵr yn rhy hallt i’w yfed. Mae’n anodd credu’r peth, ond fe all pobl gerdded hyd at 24 awr er mwyn cael dŵr i’w yfed.

Gwragedd a phlant yw’r rhai sy’n dioddef waethaf. Rhai yn gorfod cerdded am oriau yn cario llestri trymion o ddŵr at ddefnydd y teulu. Mae’n gallu golygu nad oes gan y wraig yr amser i fedru cynorthwyo’r teulu yn economaidd am ei bod yn treulio cymaint o’i bywyd yn casglu dŵr, ac fe all hyn yn ei dro arwain at straen ac anghydfod o fewn y teulu. Pan fod aelodau o’r teulu yn mynd yn sâl ar ôl yfed dŵr brwnt, rhaid gofalu amdanynt, ac wrth gwrs mae cymaint o blant yn colli mas ar addysg am fod eu hamser i gyd yn mynd i nôl dŵr.

Ond mae pethau’n newid. Trwy waith BCAS, partner Cymorth Cristnogol ym Mangladesh, fe sefydlwyd cynghorau dŵr, pani parishad, mewn sawl pentref a chymuned ym mhob rhan o’r wlad. Amcan y sefydliadau hyn yw dod â phobl at ei gilydd er mwyn dod o hyd i’r ateb gorau ar gyfer cyflenwad dŵr i’w pentrefi hwy. Ond dydi pethau ddim yn gorffen fanna, oherwydd mae’r cynghorau yn darparu fforwm i drafod materion eraill sy’n effeithio’r gymuned. A gan fod yn rhaid i bob cyngor gael mwy na hanner o aelodau benywaidd a gyda’r llywydd yn gorfod bod yn wraig, mae’n golygu bod llais y wraig yn cael ei chlywed.

Eleni cynhelir Wythnos Cymorth Cristnogol am y 51fed tro. Dros yr hanner canrif ddiwethaf mae pobl wedi bod yn dod at ei gilydd mewn capel ac eglwys, dinas a thref, pentref a chymuned ar draws Cymru ac wedi cyflawni pethau rhyfeddol. Maent wedi gwneud llawer mwy na jyst casglu arian i ddarparu anghenion sylfaenol fel dŵr. Maent wedi galluogi; cynorthwyo pobl i ddarganfod eu llais; cael pobl i sefyll ar eu traed eu hunain, dysgu iddynt beth yw eu hawliau a sut mae eu cael; rhoi urddas a gwerth i fywyd ac ysgogi newid er gwell.

Beth am wneud hynny unwaith eto eleni trwy gefnogi Wythnos Cymorth Cristnogol?

Robin Samuel

## YSGOL GYNRADD CREIGIAU

**Ffonau symudol**
Diolch yn fawr i bawb sydd wedi dod â hen ffôn symudol i’r ysgol a chetrys inc i’w hailgylchu gyda Chymorth Cristnogol i helpu plant i gael addysg yng ngwledydd y Trydydd Byd.
Rydym yn dal i’w casglu felly gofynnwch i’ch ffrindiau, teulu a’ch cymdogion am fwy. Mae ailgylchu un ffôn yn codi £3.00.

Daeth Cwmni teledu Boomerang i ffilmio plant Bl 1 a 2 a rhai Bl 3. Roedd pawb wrth eu bodd yn ffilmio ar y cae ac yn yr ardd.

**Dosbarth 2**
Llongyfarchiadau i Ffinli Barber am ddod yn 2il yn Eisteddfod yr Urdd am ei waith tecstiliau. Da iawn ti eleni eto!

**Miss Roberts**
Dros y Pasg roedd Miss Roberts Dosbarth 3 wedi dyweddïo. Llongyfarchiadau!

**Trip Dosbarth 3 a 4**
**Y Mosg a’r Synagog**
Ar y 14eg o Ebrill aeth Dosbarth 3 a Dosbarth 4 i’r Mosg a’r Synagog fel rhan o wers Addysg Grefyddol. Fe ddysgon nhw lawer am y crefyddau ac fe gawson nhw lawer o hwyl. Roedd y Synagog yng Nghyncoed ac roedd y Mosg yn Bute Street. Fe hoffai Mrs Evans a Miss Roberts ddweud pa mor dda oedd Dosbarth 3 a 4.

**Yn y Mosg**
Roedd angladd yn y Mosg. Roedd yr angladd yn breifat felly yn ffodus gwylion ni yr angladd ar sgrin fawr.
**Yn y Synagog**
Roedd llawer o sgroliau yn y Synagog. Achos roedd y sgroliau mor werthfawr roedd yna glo ar yr Arch a larwm a chamera.

**Dosbarth 5**
Cafodd Miss Mason ei babi ar ddydd Sul y 13eg o Ebrill. Merch fach oedd hi o’r enw Seren. Llongyfarchiadau!

**Dosbarth 6**
Fe frifodd ddwy ferch sef, Lauren a Becky eu troed dros y gwyliau Pasg. Roedd yn rhaid iddyn nhw ddefnyddio ffyn baglau. Erbyn hyn mae Becky yn holliach a Lauren yn dal i wella.

**Mrs Hughes**
Yn anffodus iawn mae Mrs Hughes (athrawes Dosbarth 6) wedi bod yn sâl iawn ac mae hi dal yn sâl ond dyn ni’n gobeithio y bydd hi nôl cyn hir .

**Sioe agoriadol yr Eisteddfod**
I agor yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awstmae sioe sydd wedi cael ei hysgrifennu gan Mei Jones, tad Aron Môn bachgen yn yr ysgol. Mae un o’r bechgyn yn y sioe o’r enw Hedd yn cael ei actio gan Josh Morgan bachgen yn nosbarth 6 a hefyd mae ei dad, Lyn, yn actio ynddi. Mae ci Aron Môn o’r enw Gel yn actio ynddi hefyd. Yn y sioe mae Megan Dodson, Aron Jones, Aron Môn a Siwan Evans yn clocsio.

**Pêl-rwyd**
Ar ddydd Mercher yr 16eg o Ebrill aeth y tîm pêl-rwyd i Gyncoed i chwarae twrnament pêl-rwyd. Ar ôl y gemau fe enillon ni y cystadlaethau saethu ac enillon ni grys-t. Hoffen ni roi diolch i Mrs Hussey a Mrs Stone am fynd â ni i’r Twrnament.

**Pêl-droed**
Ar yr 21ain o Ebrill roedd y tîm pêl-droed wedi mynd i Gerddi Soffia i chwarae twrnament pêl-droed chwech bob ochr. Roedd pawb wedi cael hwyl. Daethon ni’n bedwerydd allan o bump. Diolch i Mr Williams am fynd â ni, a diolch i Mr Evans am drefnu’r holl beth.

**Rygbi**
Ar ddydd Llun Ebrill 21ain daeth tîm rygbi o dan 18 Seland Newydd i roi gwers rygbi i flwyddyn 6. Roedd Robert Jones yn gyn-ddisgybl yn yr ysgol. Roedden ni’n ymarfer sgiliau pêl ac fe fwynhaodd pawb yn fawr iawn. Diolch hefyd i’r tîm am berfformio’r Hakka i’r ysgol gyfan ar yr iard yn y glaw!

**Croeso**
Hoffwn roi croeso mawr i Mr Williams a Miss Davies i’r Adran Gymraeg.

# Sefydlu y Parch R Alun Evans



**R Alun Evans yn derbyn croeso Bethlehem oddi wrth Rhys Dafis yng ngŵydd llywydd y cyfarfod, Y Parch. Eifion Powell.**

Ar bnawn Sadwrn Ebrill 19, daeth cynulleidfa niferus i Fethlehem, Gwaelod y Garth i sefydlu y Parchedig Ddr. R Alun Evans yn Weinidog newydd yno, ar y cyd â'i eglwys ym Methel, Caerffili.

Y Parchedig Eifion Powell, cyfaill i R Alun Evans ers dyddiau coleg, oedd yn llywyddu ac un arall o'i gyfeillion colegol, Y Parchedig Elwyn Jones, brodor o Rosllannerchrugog, ond bellach o Dalwrn, Sir Fôn a osododd yr her i'r Gweinidog newydd. Hwyrach fod rhai o ddarllenwyr Y Tafod yn cofio Elwyn yn cychwyn ar ei ofalaeth gyntaf yn Ynysybwl.

Cafwyd cyfraniadau arweiniol hefyd gan y Parchedigion Eirian Rees, Owain Llŷr, Huw Ethall, Dewi Myrddin Hughes a Cynwil Williams, ynghyd â chyfarchiad gan Eyron Thomas ar ran eglwys Bethel, Caerffili. Rhwng y rhain, ledwyd yr emynau a chafwyd hanes yr alwad ac eitemau croeso gan Cath Edwards, Marged a Delwyn Siôn, Rhys Dafis, Eirian Samuel, Judith Evans, Rhodri Gwynn Jones, Dafydd Huws, Siwan Rhys, Carol Davies Jones a Peter Wynn Thomas wrth yr organ.

Cyfeiriodd sawl cyfrannwr at ddoniau cyfathrebu di-ail R Alun Evans yn y pulpud (fel ym mhopeth a wna), a'r egni a'r brwdfrydedd sy'n nodweddu ei holl gyfraniadau. Tystiodd Eyron Thomas i'w ofal a'i ymroddiad mawr hefyd fel bugail Bethel, a diolchodd i aelodau Bethlehem am ei rannu yn hytrach na'i gipio! Yn ei dro, talodd Rhys Dafis, Ysgrifennydd Bethlehem, yntau deyrnged i swyddogion ac aelodau Bethel am ymateb mor fawrfrydig a chadarnhaol i'r bwriad, ac am eu parodrwydd i newid eu patrwm addoli er mwyn i'r trefniant weithio.

Dyma'r cywydd cyfarch gyfansoddwyd gan Dafydd Huws, Ffwrnes Blwm i'r achlysur:

## I gyfarch R Alun

A ninnau'n ddi-arweiniad,
fel tŷ sydd heb ofal tad,
o'i alw i'n bugeilio,
addo wnaeth ei ddoniau o;
a'i nodded addunedodd –
a ninnau bawb wrth ein bodd.

Ninnau'i braidd, rhai digon brith!
rhai egr, eto'n ddiragrith
yn o lew, ond yn ein plith,
eto, 'run ddafad letwith;
er bod awch crwydro bob dydd,
er ein bai, defaid ufudd.

Bydd o'n ein gwylio i gyd
yn ddyfal, a bydd hefyd
o ddirnad un ddafad ddu
ar ôl hon i'w chorlannu
yn un swydd, rhoi gwers iddi
a stop ar ei chastiau hi!
Ambell angel fel y fi'n
anhyglyw berarogli,
yn ail ddim ond i'r lili.
(Ond dyna'n wir ddwedwn i!)

Galw'r ŵyn, a gwylio'r hen;
morol am bob maharen.
Rhai da y praidd o frid prin,
a rhai ydyn gyffredin.
Yna brid aruchel braidd
â'u henwau diaconaidd!
Yn ddiau bugail fydd hwn
all ledio ambell lwdwn!

Efo'i ddawn, bugail fydd o
i roddi – a'i wefreiddio.
Ym Methlem mae tir maethlon,
a daw'r haf i'r hendre hon
eilwaith pan fydd R Alun
wrth breiddiau yr erwau hyn;
a di ail fugail a fydd
i'n llenwi â llawenydd.

Dafydd Huws, Ffwrnes Blwm

# Cyfleoedd Cymraeg i Ffermwyr Ifanc Sir Forgannwg



Am y tro cyntaf yn hanes Clybiau Ffermwyr Ifanc Morgannwg, cymerodd aelodau'r Sir ran mewn cystadleuaeth Ddarllen gyhoeddus ar ddydd Sul, Mawrth 30ain.

Bu pedwar tîm (gyda thri aelod) yn darllen rhan o lyfr chwedl Dic Penderyn gan Meinir Wyn Edwards. Roedd yr aelodau i gyd yn ail iaith bron, a gwelwyd budd mawr i'r gystadleuaeth.

Dywedodd aelod "dwi'n mawr obeithio y bydd y gystadleuaeth hon yn sbarduno mwy o weithgareddau cyfrwng Cymraeg yn y sir yn y dyfodol agos. Mae amryw o'n haelodau yn defnyddio'r iaith o fewn ffiniau'r ysgol, ond yn aml iawn does dim cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r iaith y tu allan".

Yn ôl Siwan Hywel, sydd yn gweithio i Fudiad Ffermwyr Ifanc Cymru fel Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg "Pwrpas y diwrnod oedd creu mwy o gyfleon i'n haelodau ddefnyddio'r iaith Gymraeg yng ngweithgareddau'r Ffermwyr Ifanc. Rydym wedi dechrau gydag un gystadleuaeth, ond mawr obeithiwn y bydd y ddarpariaeth yn cael ei hehangu yn unol â gofynion ein haelodau."

Enillwyr y gystadleuaeth oedd Hannah, Delun a Ceryn o Glwb Llantrisant, llongyfarchiadau mawr iddyn nhw.


**Prynu ar-lein a chefnogi'r Fenter Iaith**

Gallwch gefnogi'r Fenter drwy wneud eich siopa ar-lein yn

**www.buy.at/menteriaith**

Dewis eang o Amazon, M&S, Littlewoods a gwasanaethau eraill.

# Portread o Ddysgwraig



Helo 'na! Adele 'dw i. Adele Reeves-Phillips. 'Dw i'n byw yn Llanilltyd Faerdre erbyn hyn ond 'dw i'n dod o Bontypridd yn wreiddiol. 'Dw i'n dysgu Cymraeg yn ysgol Evan James, Pontypridd ddwywaith yr wythnos – gyda Colin, Julian a Nia ers tair blynedd. 'Dw i'n dwlu ar ddysgu Cymraeg – a 'dw i'n gweithio'n galed i groesi'r bont!

Gyda'r dydd 'dw i'n gweithio llawn amser yng Nghroes Cwrlwys i gwmni Marks & Spencer – 'dw i yno ers 1990. 'Dw i'n briod â Dafydd – priodon ni yn St Lucia ym 1995. Does dim plant 'da ni. Mae fy ngŵr hefyd yn gweithio i M&S. 'Dyn ni'n mwynhau cadw'n heini, seiclo, dringo a cherdded mynyddoedd.

Mae fy mam a'n nhad yn fyw o hyd, ac mae pedwar brawd ac un chwaer gen i – Heather – fy ngefaill. Ces i fy ngeni ym Mhontypridd yn y chwedegau – yn Ysbyty Dwyrain Morgannwg, ond cafodd fy chwaer ei geni yn yr Ambiwlans ar Hen Bont Pontypridd ar y ffordd i'r ysbyty – deg munud cyn i fi gyrraedd! Efeilliaid ydy Heather a finne! Aethon ni fel plant i ysgolion Pontypridd. Aeth Heather i fyw i Seland Newydd am dair blynedd – ac es i allan i ymweld â hi am gyfnod o bump wythnos. Gwyliau ffantastig! Ar y ffordd arhoson ni yn Singapore ac ar y ffordd nôl galwon ni yn Fiji a Honolulu. Fy hoff le oedd Fiji! Bellach mae Heather hefyd nôl yng Nghymru.

Pan on i'n ifanc ro'n i'n arfer bod yn aelod o fand jazz – a daethon ni yn bencampwyr byd ym mil naw wyth dau! Byddwn ni'n mynd ar wyliau seiclo eleni – seiclo'r 'Coast to Coast' – o Whitehaven yng Nghymbria i Robin Hood Bay, Newcastle. Taith o ryw wythnos i gyd – yn cysgu mewn llety gwely a brecwast ar y ffordd. Dyn ni'n edrych ymlaen!

Mae dysgu Cymraeg wedi agor sawl drws i fi – yn arbennig yn y gwaith. Erbyn hyn maen nhw'n galw arna i i wneud cyhoeddiadau Cymraeg dros y meic yn achlysurol. Ar Ddydd Gŵyl Dewi eleni byddech chi'n clywed fy llais yn dweud –


'Dydd Gŵyl Dewi hapus i'n cwsmeriaid i gyd! I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi mae cyfle i flasu bwydydd arbennig yn y Neuadd Fwyd. Galwch draw i gwrdd â rhai o'n cyflenwyr.'

Yna ar Sul y Mamau ro'n i wrthi eto – 'Sul y Mamau hapus! I ddathlu Sul y Mamau cewch chi siocled o'r Swistir am hanner pris wrth i chi wario naw punt nawdeg naw ceiniog yn y siop heddiw!'

Mae'n lot o hwyl – dysgu Cymraeg – a 'dw i wrth fy modd yn cael cyfle i ddefnyddio fy Nghymraeg yn y gweithle!

## Cornel y Plant

MAE NIA WEDI CAEL SAWL CI BACH NEWYDD. BETH SYDD ANGEN ARNI I OFALU AMDANYNT?





MAE'R GAIR <u>CI</u> YN DECHRAU POB ATEB

1. Pryd rhwng brecwast a the
2. Bocs sy'n llawn o drysor
3. Gwisg i ddynion yr Alban
4. Rhaid gwneud hyn cyn sgorio gôl
5. Rhaid gwneud hyn wrth y til mewn siop adeg y Nadolig


ATEBION - 1.cinio; 2.cist; 3.cilt; 4.cicio; 5.ciwio

LLIWIWCH Y LLUN A RHOWCH ENW IDDO AR GOLER



# CROESAIR COL

**Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau.**



**Atebion i: Croesair Col**
**34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX**
**erbyn 20 Mai 2008**

**Ar Draws**

1. Bwyd cyffredin (4)
8. + 11. Mae cartref pobl yn bwysig iddyn nhw (6,4,2,2)
9. Digywilydd (2)
10. Gwneud yn wahanol (5)
11. Gweler 8.
13. + 23. Allwch chi ddim barnu pethau wrth eu golwg (3,3,5,)
15. Distadl (4)
16. Enw merch (4)
18. Cynnal gwartheg (4,2)
19. Trechu (4)
20. Gweithio (5)
22. Person cyntaf unigol (2)
23. Gweler 13
24. Enw llong Jason (4)

**I Lawr**

2. Adferiadau (10)
3. Dull o siarad (4)
4. Lle agored mewn tref neu bentref (6)
5. Gweler 12
6. Y weithred o lefeinio (8)
7. Oddi tanodd (4)
12. Mae rhyw sail i bob stori (4,3,3)
14. Gwyddor adeiladwaith y corff (8)
17. Sboncio (6)
18. Gloywi, llyfnu (6)
19. Efelychiad (4)
21. Bwrw oen (4)

## Atebion Ebrill

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | E | N | W | A | D | | M | W | N | C | I | |
| C | | A | | N | | E | | B | | Y | | C |
| Y | S | T | L | E | | B | R | W | Y | D | R | O |
| M | | U | | R | | R | | B | | 0 | | L |
| E | D | R | Y | CH | I | A | D | | P | L | U | O |
| D | | | | I | | N | | C | | W | | M |
| R | W | S | I | A | D | | G | W | A | G | L | E |
| O | | W | | D | | A | | T | | | | N |
| L | E | I | N | | A | D | F | O | R | I | O | N |
| D | | L | | B | | A | | G | | A | | A |
| E | I | D | A | L | W | R | | L | Y | S | T | I |
| B | | O | | I | | A | | A | | O | | DD |
| | A | D | E | N | W | | C | W | I | L | T | |

## MENTER IAITH
**Rhondda Cynon Taf**

**Yn hybu'r Gymraeg**

**01443 226386**

www.menteriaith.org



**Criw Bore Coffi Y Bwtsiars, Llantrisant yn ffarwelio â Helen Davies.**

**Ffarwelio**

Dymunwn yn dda i Helen Davies, Cydlynydd Gofal Plant y Fenter, sy'n mynd i weithio i Ganolfan y Gymraeg, Prifysgol Morgannwg.

Cynhelir Boreau Coffi yn y Miwni, Pontypridd am 12.00 Dydd Iau ac yn y Bwtsiars, Llantrisant am 10.30 bore Gwener. Croeso i bawb ymuno i gael sgwrs.

**Grant i Hybu Gwaith Ieuenctid**

Mae'r Fenter wedi bod yn ffodus i dderbyn grant o £70,000 dros tair blynedd i hybu gwaith ieuenctid CiC. Bydd hyn yn ehangu'r cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'u Cymraeg tu allan i oriau ysgol. Ar hyn o bryd cynhelir gweithgareddau yn Ysgolion Rhydywaun, y Ddraenen Wen, Cardinal Newman, Y Cymer, Blaengwawr, Ioan Fedyddiwr ac Ysgol y Merched Aberdar.

**Cymunedau Nesaf**

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ar hyn o bryd ar ddyfodol cynllun Cymunedau'n Gyntaf sy'n rhoi hwb i weithgarwch cymunedol mewn 21 ward yn sir Rhondda Cynon Taf. Mae'r Fenter yn cyflogi tri o swyddogion fel rhan o'r cynllun a thrwy eu gwaith da mae nifer o brosiectau ieuenctid a chymunedol wedi eu cychwyn. Rydym yn pwyso ar y Cynulliad i barhau i gefnogi gwaith y Fenter yn y maes hwn.

**Parti Ponty**

Mae paratoadau wedi cychwyn ar gyfer yr Ŵyl ar 4 — 6 Gorffennaf 2008.

# YSGOL GYFUN RHYDFELEN

**www.rhydfelen.org.uk**

**Y Bagad**
Mae ysgolion bob amser yn chwilio am brofiadau i'w rhoi gerbron eu disgyblion sydd yn gyfuniad o'r addysgol a'r hwyliog. Felly, pan gysylltodd Gareth Westacott â ni ar ran cwmni dawns Bagad o Lydaw, manteision ni'n frwd ar y cyfle i'w croesawu i'n safle newydd ni ar Gampws Cymunedol Gartholwg ar ddiwedd mis Chwefror. Roedd y theatr yn llawn o ddisgyblion Blwyddyn 8. Perfformiodd y dawnswyr ddwywaith, fel bod pawb yn y flwyddyn yn cael cyfle i'w gweld.

Roedd sŵn y pibau a'r drymiau amrywiol yn ymbaratoi, yn ogystal â lliw a newydd-deb gwisgoedd y Bagad yn ddigon ynddo'i hunan i greu awyrgylch arbennig.

Toc, roedd pawb yn barod a'r dawnsio nodweddiadol yn dechrau. Ffurfiai'r dawnswyr batrymau clos, cynnes *y gafót* a'r *ân dro* i gyfeiliant egniol y cerddorion. Roedd ambell i symudiad mwy cyffrous hefyd - yn enwedig yn y ddawns *pwrle,* lle lwyddodd y dynion neidio yn athletaidd tra'n rhan o hyd o weddill y rhes.

Rhwng y dawnsiau, dysgodd y disgyblion gryn dipyn am y cysylltiadau Celtaidd sy'n ein huno ni â Llydaw. O safbwynt y math o addysg rydym ni'n ceisio ei roi i'n plant, roedd hyn yn neilltuol o werthfawr. Cawsom ein hatgoffa am ymweliadau'r seintiau cynnar a Llydaw, hanes Non mam Dewi a'i chladdedigaeth yn Dirinon, a bodolaeth yr iaith Lydaweg. Diolch i un o ferched y cwmni, clywon ni'r tebygrwydd agos sydd, er enghraifft, rhwng rhifau a geirfa'r ddwy iaith.

Erbyn diwedd y bore, roedd gan y disgyblion syniad llawer cliriach o beth yw'r cwlwm Celtaidd, ac o ddiwylliant Ewropeaidd sydd ar yr un pryd yn agos atom ni ac eto sydd a'i swyn a chyfaredd arbennig ei hunan.

**Taith Blwyddyn 10 i Techniquest**
Ar y 13 o Fawrth glaniodd 90 o ddisgyblion Blwyddyn 10 yn Techniquest. Cafodd y disgyblion gyfle i wrando ar ddarlith yn y Planetariwm yn esbonio bywyd seren a chlywed am beth oedd i'w weld yn yr awyr ym mis Mawrth. Roedd y ddarlith yn rhan o gyfres o weithgareddau CA4 i gynorthwyo ysgolion i gyflwyno rhannau o'r cwricwlwm Ffiseg a Gwyddoniaeth.

Yn ogystal â'r ddarlith cafodd pawb lawer o hwyl wrth ddysgu trwy chwarae gyda'r arddangosfeydd yn yr oriel. Yn wir, roedd rhai wedi eu swyno gan yr ardal ddŵr a'r ceir rasio trydan. Roedd y disgyblion wedi mwynhau hefyd!

**Camre Cymru – Alldaith i Costa Rica**
Nos Fercher 16 Ebrill cafwyd noson hynod gyffrous yn yr ysgol pan ddaeth arweinydd alldaith yr ysgol i Gosta Rica i gyflwyno manylion y daith i'r rhieni.

Cafwyd cyflwyniad gan Zoe Padfield ac Alun Evans Blwyddyn 13 hefyd, sy'n dangos eu bod wedi bod yn ymchwilio'n fanwl i'r wlad. Bydd y disgyblion gyda dau o'r athrawon Mr Llyr Evans a Mr Mark Porter yn treulio mis yn crwydro'r wlad a gwneud gwaith gwirfoddol i gynorthwyo pobl ifanc anghenus dros wyliau'r haf.

**Pêl-fasged**
Llongyfarchiadau mawr i dîm Pêl-fasged Blwyddyn 9 a enillodd gystadleuaeth Pencampwyr y Sir ar 16 Ebrill. Da iawn fechgyn!

# Ysgol Gyfun Llanhari

**Cynllun COMENIUS Budapest 2il-7fed o Fawrth 2008**
Cynllun traws-Ewrop yw cynllun Comenius ac rydym yn ymfalchïo yn llwyddiant cais Ysgol Gyfun Llanhari eleni. Ynghyd â'r ysgol hon, mae ysgol Fasgeg yn Pamplona, Gwlad y Basg, ysgol o Vasa, Ffindir lle maent yn siarad Swedeg, ysgol yn Budapest, Hwngari ac ysgol yn Waregem, Fflandrys, Gwlad Belg lle maent yn siarad Fflemeg.
Ar ôl misoedd o drefnu a pharatoi trylwyr ar gyfer y daith, fe aeth dau ddisgybl ar bymtheg o Flwyddyn 9 o dan ofal Miss Liz Thomas, Mr Paul Mason a Mr Mathew McAvoy i Budapest ar yr 2il o Fawrth.

Bu'r wythnos yn un prysur iawn gyda nifer fawr o weithgareddau wedi eu trefnu ar ein cyfer o fore gwyn tan nos. Roedd cyflwyniad Ysgol Gyfun Llanhari yn un caboledig iawn a chanmolwyd y disgyblion am eu proffesiynoldeb a'u brwdfrydedd i ymgymryd â phob gweithgaredd yn flaengar ac yn egniol. Ymhlith y gwahanol weithgareddau oedd blasu bwyd y gwahanol wledydd felly paratôdd ambell un o'r disgyblion a Miss Thomas bice bach….camp yn ei hun! Blaswyd bwydydd fel chorizo, tortilla, bara a chaws o'r Ffindir, bwydydd iachus o Hwngari ac amryw o ddanteithion eraill. Bu'r disgyblion hefyd yn cystadlu'n frwd mewn cystadlaethau rhyngwladol wrth iddynt chwarae rygbi cyffwrdd, pêl law, a phêl droed yn erbyn y gwledydd eraill.

Trefnwyd nifer o ymweliadau ar ein cyfer, o gwmpas Buda ac o gwmpas Pest y ddinas a hefyd i basilica Eztergom mewn pentref ar y ffin gyda Slofacia ac i dref hynafol Vizergrad. Buom ar daith ar hyd yr afon Donaw hefyd. Buom mewn "spa" awyr agored - profiad rhyfedd oedd ymdrochi mewn dŵr 38gradd a hithau ond yn 4 gradd y tu allan!

Roedd yr 17 disgybl a fu'n rhan o'r cynllun Comenius yn glod i'r ysgol a'u gwlad ac yn llysgenhadon heb eu hail yn Budapest.

Bu'n brofiad arbennig i'r disgyblion gymdeithasu gyda disgyblion o wledydd Ewropeaidd ac mae'n siŵr ehangwyd eu gorwelion yn sylweddol. Bydd disgyblion o'r 4 ysgol hon yn dod i Gymru, i Ysgol Gyfun Llanhari yn nhymor yr Hydref, yna bydd cyfle i ddisgyblion fynd i'r Ffindir fis Chwefror 2009.


**CYLCH MEITHRIN EFAIL ISAF**
**Bob bore**
**Mawrth, Mercher, Iau a Gwener**
**9.30 - 11.30**
**Yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf**
**Manylion: 01443 208806**

**TI A FI BEDDAU**
**Bob bore Mercher 10.00 - 11.30a.m.**
**yn Festri Capel Castellau, Beddau**

**TI A FI TONTEG**
**Bob dydd Mawrth 10 - 11.30**
**yn Festri Capel Salem, Tonteg**

**TI A FI CREIGIAU**
**Bore Gwener 10 - 11.30am**
**Neuadd y Sgowtiaid,**
**Y Terrace, Creigiau**
**Manylion: 07866 087042**

**TI A FI PENTRE'R EGLWYS**
**1.15-2.45p.m. Neuadd Y Plwyf**
**Bob dydd Iau**

**CYLCH MEITHRIN CILFYNYDD**
**Bore Llun, Mercher a Iau**
**9.30-11.30**
**TI A FI CILFYNYDD**
**Dydd Gwener 9.30-11.30**
**Neuadd Y Gymuned,**
**Stryd Howell,Cilfynydd.**
**Manylion: Ann 07811 791597**

**CYLCH MEITHRIN BRYNNA**
**Dydd Llun - Gwener 9.30 - 12.30**
**01443 229723**

**CYLCH MEITHRIN PONTYCLUN**
**Dydd Llun - Gwener 9 - 12**
**07912 101506**
**Ti a Fi Pontyclun**
**Prynhawn Llun 1.15 - 2.45**
**01443 225644**

**CYLCH MEITHRIN THOMASTOWN**
**Dydd Llun - Iau 9.15 - 11.45**
**Ti a Fi bore Gwener 9.30 - 11.30**
**07757 633249**







**Ymweliad Ysgol Gyfun Llanhari â Budapest**



**Tîm pêl-fasged Blwyddyn 9 Ysgol Gyfun Rhydfelen**




## Digwyddiadau Mai

## @ Gartholwg

Canolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg Lifelong Learning Centre

**Dydd Sadwrn 10/05/08 10.00 - 3.00pm**
**Ffair Wanwyn - Diwrnod Cymraeg i'r Teulu**
**£3 y plentyn**
**Sali Mali a Sam Tân, Castell neidio, Bws BBC, Surestart Stondinau— Awenmedia, Blaenavon Cheddar, Blinkies, Bodlon, Mabon a Mabli, Borders, Eisteddfod Genedlaethol, Cardiau, Job-trac Cymru, Gemwaith arian, Virgin Vie, Llyfrau Usbourne, Shwldimwl, Yum Scrum.**
**Gweithdai Crochenwaith a Chelf. Peintio Gwynebau.**

**Nos Wener 16/05/08 8pm**
**"Trafaelu ar y trên glas" gan Sharon Morgan**
**Portread o gyfnod tymhestlog canol oed pan fydd rhaid i fenyw wynebu herio'i chorff a'i henaid tra'n ceisio ymrafael â dirgelion bywyd a marwolaeth.**
**Sut ma' torri drwy'r haenau o gelwydd a chyfrinachedd er mwyn darganfod llwybrau newydd? Sut ma' osgoi suddo o dan y don a diflannu o olwg y byd? Sut ma' dod i delerau â'i hangerdd goruwchnaturiol a'n bwysicaf oll, sut ma' osgoi troi'n llofrudd!!**

**Gweithgareddau Saesneg:-**
**06/05/08 Ffrangeg ar gyfer gwyliau 1 – 3pm**
**15/05/08 10.00 - 12.00pm Am Ddim**
**Sesiwn Gwybodaeth– Pensiynau/Treth Etifeddiaeth/Buddsoddi**
**19/05/08 10-2.00pm Am ddim. Diwrnod Amlddiwylliant**
**20/05/08 1.30pm Tocyn £4 "Cofio/Remembering" - Rhondda Cynon Taf Community Arts.** Mae'r cynhyrchiad lliwgar a brathog yma (cyfrwng Saesneg), yn cyffroi atgofion o'r 30au, 40au a'r 50au trwy gyfrwng ysgrifennu creadigol, deialog, celf weledol, cerddoriaeth a chân.
**22/05/08 10-3.00pm Diwrnod ymwybyddiaeth Iechyd**
**23/05/08 6pm "The Lazy Ant" £5/£12 tocyn teulu. 5+.**
Stori lliwgar, ddoniol am forgrugyn sy'n meddwl ei bod yn gweithio'n rhy galed.

**Am restr lawn o gyrsiau a digwyddiadau cysylltwch â:**
**www.campwgartholwg.org.uk**
**☎ 01443 219589**

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

**Eisteddfod Yr Urdd**
Pob lwc i'r plant fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd dros y Sulgwyn:

Jacob Hughes (Unawd dan 8 )
Harriett John ( Llefaru dan 12 )
Ymgom
Parti Llefaru



**Cymorth myfyrwyr**
Croeso cynnes i'r myfyrwyr canlynol sydd gennym yn yr ysgol ar brofiad gwaith ar hyn o bryd. Rachel Phillips (UWIC), Ceran Reed (Coleg Morgannwg), Siân Jones a Christina Hughes (Cam wrth Gam), Emma Long (Ysgol yr Hen Felin), Natalie Lewis (Ysgol Gyfun Llanhari). Diolch o galon iddynt am eu gwaith yn nosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen.

**'Crucial Crew'**
Aeth blwyddyn 6 ar ymweliad â'r 'Crucial Crew' yn Nhrefforest gydag ysgolion Cymraeg yr ardal. Mae'n gyfle gwych i'r plant gael siarad â gwasanaethau'r gymuned gan gynnwys Yr Heddlu, Y Frigâd Dân a'r Comisiwn Coedwigaeth.

**Chwaraeon**
Mae timau'r ysgol wedi bod yn brysur iawn unwaith eto gyda'r tîm pêl-droed yn cystadlu yng Nghystadleuaeth RCT, y tîm rygbi o dan hyfforddiant Gleision Caerdydd, Y tîm pêl-fasged yng Nghystadleuath PESS Y Rhondda a'r tîm pêl-rwyd yng nghystadleuaeth 'Fantasy Netball' y sir. Mae'r tîm pêl-rwyd hefyd wedi derbyn hyfforddiant gan aelodau o dîm Cymru fel rhan o gynllun ' Active Kids'

**Cynllun Glanhau Dannedd**
Bydd plant y dosbarth meithrin yn dechrau glanhau eu dannedd yn yr ysgol yn ystod Mis Mai. Y Bwrdd Iechyd sy'n rhedeg yr ymgyrch – Pob lwc i Mrs Nadimi a Miss Jones !!

www.mentercaerdydd.org
029 20565658

**Cynlluniau Gofal Hanner Tymor**
Fe fydd y Fenter yn cynnal 3 cynllun yn ystod gwyliau'r Sulgwyn. Fe fydd safle Ysgol Treganna ac Ysgol y Berllan Deg ar agor o Ddydd Mawrth, Mai 27 – 30 tra bydd safle Ysgol Melin Gruffydd ar agor am dridau Mai 28 - 30. Yn ogystal â nifer o weithgareddau amrywiol ar eu cyfer gan gynnwys creu crefftau, coginio, chwaraeon ayb fe fydd taith i Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Am ffurflen gofrestru, ebostiwch gwyneth@mentercaerdydd.org

**Cwis Cymraeg**
Fe fydd cwis Cymraeg nesaf y Fenter yn cael ei gynnal Nos Sul, Mai'r 25ain yn y Mochyn Du am 8pm.
£1 y person.



**Jacob Hughes**



**Harriett John**



**Parti Ymgom**

## Miri Meithrin



**Dydd Iau, Mai 29**
**Canolfan Hamdden Pentwyn**
**2pm – 3.30pm**
**£2 y plentyn wrth y drws**
**Castell Gwynt, 'Soft Play' a Paentio Wynebau**

Cyfle gwych i blant ifanc a'u rhieni gymdeithasu
mewn awyrgylch sâff a hwyliog.
Mae'r sesiynau yn addas ar gyfer plant 0 – 4 mlwydd oed

**Gweithgareddau i Ddysgwyr**
**Bore Coffi yn y Mochyn Du**
Mae dros 20 o ddysgwyr yn mynychu'r bore coffi ar fore Mawrth yn y Mochyn Du erbyn hyn, ond mae croeso i ddysgwyr newydd o hyd. Beth am ymuno â ni rhwng 11am a 12pm bob Dydd Mawrth am goffi a sgwrs? Fe fydd Elfed Roberts, Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn galw mewn am sgwrs Ddydd Mawrth, Mai 27. Mae croeso i ddysgwyr o bob safon.

**Cwrs Blasu Cymraeg**
Yn dilyn llwyddiant ysgubol y cwrs 'Welsh for Parents' mae cwrs 8 wythnos newydd sbon sydd wedi ei gynllunio ar gyfer rhieni di-Gymraeg sydd am anfon eu plant i addysg llawn amser Cymraeg yn cychwyn ar Fai'r 13eg. Mae'r cwrs yn cynnwys gwersi Cymraeg yn ogystal â sesiynau ymwybyddiaeth iaith. Rydym wedi targedau rhieni cylcheodd Meithrin a Ti a Fi yn ogystal â rhieni sydd wedi anfon eu plant i unedau meithrin ysgolion Cymraeg y ddinas. Mae sesiwn yn ystod y dydd (10yb – 11.30yb) yn Chapter, Treganna, a sesiwn gyda'r hwyr (7yh – 8.30yh) yng Nghampws UWIC, Llandaf. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Sian Lewis – sianlewis@mentercaerdydd.org.
Ariannwyd y cwrs gan Bartneriaieth Pobl Ifanc Cyngor Caerdydd.

**Hola Cómo Estás?!**
Ydych chi'n bwriadu mynd ar wyliau i Sbaen neu i Dde America'r haf hwn?
Mae Cwrs Blasu Sbaeneg 6 wythnos yn dechrau Nos Fawrth, Mehefin y 5ed, 2008 yng Nghanolfan Gymunedol Treganna, 7.15yh – 9.15 yh. Pris £30. Os hoffech wybodaeth am y cwrs neu i gofrestru cysylltwch ag Angharad ar 029 20565658

# Ysgol Pont Siôn Norton

**Cyfnod Mamolaeth**
Hwyl fawr a dymuniadau gorau i Mrs Lowri Harris a Mrs Samantha Cook fydd yn dechrau eu cyfnod mamolaeth yn ystod mis Mai.

**Eisteddfod Sir yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Ella Jones-Iles am ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth llefaru i blant dan wyth oed. Da iawn hefyd i bawb a gynrychiolodd yr ysgol yn yr Eisteddfod Gylch.

**Blwyddyn 6**
Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â'r 'Safety Zone – Y Criw Craff' ar Ebrill 22ain fel rhan o bartneriaeth diogelwch gymunedol.

**Wythnos Gelf**
Cynhaliwyd 'Wythnos Gelf' yn yr ysgol eto eleni. Bu'r disgyblion yn astudio cynnyrch Gemwaith Rhiannon, Tregaron ac yn creu patrymau Celtaidd gan gynllunio darn o emwaith eu hunain. Gwahoddwyd y cwmni 'Have a Go Ceramics' i'r ysgol a chafodd disgyblion Blwyddyn 2 a 3 gyfle i greu darn o grochenwaith yr un.

**Plannu yn y Parc**
Ar Fai 6ed fe fydd plant Blwyddyn 5 (Dosbarth Miss Davies) yn cael cyfle i blannu hadau ym Mharc Ynysangharad fel rhan o brosiect 'Gwerthfawrogi ein hamgylchfyd'.

**Chwaraeon**
Mae'r tîm rygbi wedi bod yn brysur yn chware gêm gwpan ysgolion Pontypridd yn Llanilltud Faerdref ac yn cymryd rhan yn nhwrnamaint rygbi yr Urdd.

Mae dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 i gyd yn eu tro yn ymweld â Chanolfan Hamdden Abercynon bob pnawn Dydd Gwener i gymryd rhan mewn athletau. Diolch i Mr Dennis Nugent, tad-cu James Norman, am gynorthwyo'r athrawon ac arwain y sesiynau.

***Y Gymraeg bob tro***

Ydych chi eisiau i'r cyngor gyfathrebu â chi fel unigolyn, naill ai drwy lythyr neu dros y ffôn, trwy gyfrwng y Gymraeg?

Os felly, ffoniwch, anfonwch lythyr neu neges ebost yn nodi'ch manylion

***Uned Gwasanaethau Cymraeg***
*Tŷ Trevithick Abercynon Aberpennar CF45 4UQ* . **01443 744033**
**Caroline.m.mortimer@rhondda-cynon-taf.gov.uk**

# Ysgol Gynradd Dolau

**Gymnasteg**
Llongyfarchiadau i Bechan Abbott ac Emily Thomas am ennill lle yn nhîm cenedlaethol Gymnasteg Cymru. Ar ôl ymarfer am flynyddoedd, llwyddiant mawr i'r ddwy ar gyrraedd safon mor uchel. Pob lwc iddyn nhw gyda chystadlaethau yn y dyfodol.

**Cap Rygbi Dwyrain Cymru**
Llongyfarchiadau i Joseph Davies ar ennill cap rygbi ar gyfer Dwyrain Cymru. Chwaraeodd ei gêm gyntaf ar yr asgell, yn erbyn Gorllewin Cymru. Pob lwc i'r gêm nesaf yn erbyn Gogledd Cymru.

**Codi Arian**
Cawsom ddiwrnod prysur ddydd Gwener, Ebrill 18fed wnaethom godi arian ar gyfer 'British Heart Foundation' - dros £1000 yn barod ac rydyn ni'n dal i gasglu arian. Cerddodd y plant meithrin a derbyn dair gwaith o gwmpas y cae yn eu hesgidiau glaw, yn y glaw mân! Sgipiodd gweddill yr ysgol i gerddoriaeth pop ar gyfer yr elusen. Da iawn bawb am gymryd rhan a chyfrannu at yr achos da.

**Y 60au a 70au**
Daeth nifer o hen geir y 60au a'r 70au i'r ysgol fel rhan o astudiaethau hanes blwyddyn 3 a 4. Gwnaeth y plant fwynhau dysgu am eu hanes a'u cymharu nhw gyda'n ceir ni heddiw. Diolch i bawb a daeth i ddangos eu ceir arbennig.

**Cynllun Iaith a Chwarae**
Rydyn ni newydd ddechrau Cynllun Iaith a Chwarae sy'n gysylltiedig â'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Mae'r sesiynau i'r rhieni a'u plant sy'n dechrau yn ysgol Dolau ym mis Medi. Mae'r cynllun yn amser cymdeithasol i'r plant a rhieni chwarae, dysgu rhigymau a dod i nabod ei gilydd.

**Taith Gerdded**
Aeth rhai o ddisgyblion blwyddyn 5 ar daith gerdded gyda'n ffrindiau hŷn Brynna fel rhan o waith 'Help the Aged'. Cawsom fore da yn cerdded trwy goedwig Brynna, yn sgwrsio ac edrych ar y planhigion a natur o'n cwmpas.

**Cwpan Rygbi Ysgolion Pontypridd**
Da iawn i'r tîm rygbi am gyrraedd gêm gynderfynol yng nghwpan ysgolion Pontypridd. Roedd yn gêm agos a chyffrous yn erbyn Hawthorn, ond roeddem yn anffodus i golli'r gêm yn y munudau olaf. Ymdrech dda gan bawb yn y tîm.

**Adeilad Newydd**
Mae'n gyfnod cyffrous i'r ysgol gydag adeilad newydd o 8 dosbarth, neuadd a ffreutur ar ei ffordd. Mae'r adeiladwyr yn dechrau'r gwaith yn ystod mis Mai gan obeithio bydd plant y Cyfnod Sylfaen yn symud i mewn ym Medi 2009.

**Lluniau ar dudalen 16 >>**

# Mae Croeso Cynnes i Ymwelwyr yn yr Andes

Mae'r Ysgolion Cymraeg yn Nhrevelin ac Esquel bob amser yn falch o dderbyn ymwelwyr. Os ydyn nhw am aros am sbel i'n helpu trwy wneud tipyn o waith mae hynny hyd yn oed yn well! Yn ddiweddar cawsom ymweliad gan Nesta Wyn Merrells. Yn wreiddiol o Sir Fôn roedd Nesta wedi gweithio fel athrawes plant yn Lloegr cyn ymddeol a chychwyn ar daith hir o gwmpas De a Chanolbarth America. Roedd hi gyda ni dros y Pasg yn helpu ad-drefnu ac addurno Ysgol Gymraeg Esquel. Diolch yn fawr iawn iddi am ei holl waith.

Eleni dyn ni hefyd yn mynd i dderbyn dau wirfoddolwr o Gymru sydd yn mynd i weithio gyda ni fel cynorthwywyr am ychydig wythnosau yn Ysgol Gymraeg Trevelin. Yr ydym yn edrych ymlaen yn arw at eu cwrdd.

Os hoffech chi ymweld â ni, neu weithio gyda ni am dipyn mae croeso i chi gysylltu â fi (Gill Stephen) trwy e-bostio
ysgolgymraegesquel@hotmail.com

Rwy'n sicr y bydd modd i ni ddod o hyd i rywbeth i chi ei wneud!



**Nesta Wyn Merrells yn Esquel**

# Ysgol Gymraeg Castellau

**Gwasanaeth Cymorth Cristnogol**
Croesawyd Aled Pickard o Gymorth Cristnogol i son am waith yr elusen ar draws y byd. Cafwyd cyflwyniadau symbylus ganddo ar anghyfiawnderau'r byd, sy'n dal i ysgogi sgwrs ymhlith y plant ar iard yr ysgol.


**Gleision Caerdydd**
Mae dau o chwaraewyr Y Gleision wedi cychwyn ar gyfres o sesiynau rygbi gyda'r Adran Iau ac mae'r plant wrth eu boddau.

**Ymweliad**
Bu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 ar ymweliad â Phrifysgol Morgannwg lle cawsant flas ar chwaraeon o dan hyfforddiant rhai o fyfyrwyr yr adran Addysg Gorfforol.

**Prosiect "Crucial Crew"**
Aeth disgyblion Blwyddyn 6 ar ymweliad â'r "Safety Zone" yn Nhrefforest fel rhan o godi ymwybyddiaeth at ddiogelwch yn y gymuned.

**Pen-blwydd hapus**
Cyfarchion pen-blwydd i'n Pennaeth Mr Dafydd Iolo Davies ar gyrraedd carreg filltir abennig iawn yn ystod Mis Ebrill.

**Pêl-droed**
Mewn gêm gyffrous a chystadleuol iawn sgoriodd seren y gêm Cameron Keetch ddwy gôl hyfryd. Cafwyd perfformiadau disglair hefyd gan Zak Griffiths a'r capten Luke Benjamin. Yn anffodus doedd ymdrechion y bechgyn ddim yn ddigon ar y dydd wrth i Bont Siôn Norton ennill o dair gôl i ddwy.



**Aled Pickard**




**Derbyniodd y tîm pêl-droed git newydd sbon gan CMS Teamwear.**



**Abbott ac Emily Thomas**



**Cynllun Iaith a Chwarae**

## Lluniau Ysgol Dolau




**Joseph Davies**



**Codi arian Skipathon**



**Hen Geir**



**Taith Gerdded**